

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4168>

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Mehefin
2017

Amser: 09.21 – 11.21

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Michelle Brown AC Hefin David AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC
Tystion:	Steve Davies, Llywodraeth Cymru Huw Morris, Llywodraeth Cymru Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Staff y Pwyllgor:	Gareth Rogers (Ail Glerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) Michael Dauncey (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#) (PDF 470KB) [Gweld fel HTML](#) (199KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

2 Sesiwn graffu gyffredinol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar nifer yr unigolion y disgwylir iddynt gael budd o'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i anfon ymatebion ysgrifenedig at y Pwyllgor ar gyfer y cwestiynau na chawsant eu gofyn.

3 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

- 3.1 Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – 1. Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- 3.2 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – 2. Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- 3.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – 3. Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- 3.4 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Busnes – 4. Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- 3.5 Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – 5. Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- 3.6 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Grŵp Arbenigol Iechyd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- 3.7 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru
- 3.8 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau
- 3.9 Llythyr at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Gwaith Ieuenctid
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 22 Mehefin

Derbyniwyd y cynnig.

5 Ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar y blaenraglen waith. Cytunwyd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliadau i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a chyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol. Caiff yr ymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ei lansio cyn toriad yr haf.

Cytunwyd mynd ati i gasglu tystiolaeth lafar yn nhymor yr hydref ar gyfer dau ymchwiliad ar y 1,000 diwrnod cyntaf – Dechrau'n Deg a'r gweithlu.